
GRAFFEG

Llygoden a Twrch

# Llygoden a Twrch




Awdur: Joyce Dunbar
Darlunydd: James Mayhew
Oed: 5-7
Fformat: Clawr caled
Iaith: Cymraeg
Maint: 200 x 250mm
Pris: £7.99

## Clawr

**Dewch i drafod...**

Beth welwch chi?

Pa anifeiliaid ydynt?

Beth am ddarllen y teitl.

Y teitl yw enw'r llyfr

Enwau pwy sydd o dan y teitl?

Yr awdur sydd wedi ysgrifennu'r llyfr.

Y darlunydd sydd wedi tynnu'r lluniau.

Ble mae Llygoden a Twrch yn y llun?


**Dewch i ddarganfod.../ i wneud**

Beth sy'n byw mewn coedwig?

Rhestrwch yr holl anifiliaid ac adar gallwch feddwl amdanynt.

Crëwch llunfap coedwigaidd.

Ewch am dro i'r goedwig ac yna cofnodwch yr holl bethau a glywsoch.




## I Bwy?/ cynnwys

**Dewch i drafod...**

Ambell dro fe fydd yr awdur yn cyflwyno'r llyfr i rywun – mae hwn i'r broga a'r llyffant.

A fyddech chi yn cyflwyno eich llyfr i rywun arbennig? I bwy?

Ar y dde mae'r rhestr gynnwys – beth am ddarllen y rhestr.


Sawl stori sydd yn y llyfr yma?

**Dewch i ddarganfod.../ i wneud**

Oes llyfrau eraill yma wedi eu cyflwyno i rywun?

Dysgwch am dacluso a thwtio i'r Gwanwyn – o ble ddaeth y traddodiad?

 © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.




## Siarad â mi (t7)

**Geiriau diddorol:**

picnic
braf
coedwig
esmwyth
rhostio
naill
tacluso

**Dewch i drafod...**

Adroddwch/ darllennwch y stori – am beth mae'r ddau yn trafod?

Beth yw eu cynllun ar gyfer y diwrnod wedyn/ yfory?

Beth yw eich cynlluniau chi ar gyfer yfory?

Os fydd yn sych beth wnawn ni?


Os fydd hi'n wlyb beth hoffech chi ei wneud?


Pryd fyddwn yn gwneud cynlluniau gyda'r teulu? Gwyliau efallai.


**Dewch i ddarganfod.../ i wneud**

Rhestrwch y pethau rydych yn hoffi siarad amdanynt.

Cyfatebwch gweithgaredd gyda ble fyddwn yn ei wneud tu fewn/ tu allan– neu o ran y tywydd.





## Salad (t9)

**Geiriau diddorol:**

gwthio
sniffio
casàu
closio
rhuddygl
betys
hepian

**Dewch i drafod...**

Teitl y stori hon yw Salad – pwy sy'n hoffi salad? Beth sydd mewn salad?

Adroddwch/ darllennwch y stori.

Edrychwch ar y lluniau – beth oedd Twrch yn cludo lawr y grisiau?

Pam tybed?

Pa ystafell oeddent yn bwyta ynddi?

Beth fwytodd Twrch yn gyntaf? Yna? Nesaf? Yn olaf.

Sawl plat o fwyd a fwytodd Twrch?

**Dewch i ddarganfod.../ i wneud**


Edrychwch ar ryseitiau gwahanol ar gyfer salad.


Pa fwydydd sy'n dda, iachus i ni/ pa fwydydd ddylsem gael o bryd i'w gilydd.


Tynnwch luniau o'ch hoff fwydydd ar blatiau papur (Rhowch y rhain o gwmpas eich murlun).


Pa fwydydd mae llygod a thyrchod go iawn yn ei fwyta?

*Llygoden a Twrch* Nodiadau Addysgu © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.









## Tacluso (t14)

**Geiriau diddorol:**

ymarferion
annibendod
anadlu
pwffian
chwys
diwyd

**Dewch i drafod...**

Ydych chi'n hoffi tacluso?

Ble fyddwch yn gosod popeth wrth dacluso?

Adroddwch/ darllennwch y stori.

Pam roedd angen i Llygoden a Twrch i dacluso'n iawn?

Beth oedd angen iddynt ei wneud?

Sawl peth gallwch ei enwi ar dudalen 18 ac 19?

Beth ddylsen nhw fod wedi ei wneud?

A fyddech wedi medru cysgu yn y gwely?

**Dewch i ddarganfod.../ i wneud**


Pwy sy'n ein helpu i dacluso?


Ydych chi wedi helpu i gasglu sbwriel?


Ewch i gasglu sbwriel yn yr ardal leol.

Ble mae llygod a thyrchod yn byw – gwyliwch glipiau o natur.

.







## Stwff (t22)

**Geiriau diddorol:**

esbonio
gwared
tomen
defnyddiol
gwagio

**Dewch i drafod...**

Adroddwch / darllennwch y stori.

Pwy sy'n hoffi lle/ gofod wag? Pwy sy'n hoffi stwff?

Pa un oedd Twrch yn hoffi? Sut gwyddoch hyn?

Beth wnaeth Twrch ddarganfod yn y domen?

Oedd Llygoden yn hapus? Pam?

Beth ydych yn meddwl dylai Twrch fod wedi ei wneud?

**Dewch i ddarganfod.../ i wneud**

Beth fyddwch chi yn gwneud gyda eich sbwriel?


I ble mae'n mynd?


Trefnwch fag o sbwriel glan i bentyrrau.


Dysgwch am ail ddefnyddio ac ailgylchu.


Crëwch rhywbeth defnyddiol o hen flwch.

 © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. 









## Y Picnic (t28)

**Geiriau diddorol:**

tywynnu
chwant
briwsion
rhannu

**Dewch i drafod...**

O'r diwedd mae'n nhw'n mynd am bicnic.

Ydych chi wedi bod am picnic?

Beth oedd yn eich bag/ basged?

Dewch i ni weld beth gymerodd y ddau ar eu picnic – adroddwch/ darllenwch y stori.

Am beth oedd Twrch yn pryderi/ becso?

Beth aeth o i'w nol yn gyntaf?

Sawl gwahanol math o ddillad aeth Twrch i'w mofyn?

Beth wnaeth Llygoden tra ei fod yn disgwyl?


**Dewch i ddarganfod.../ i wneud**

Dysgwych am ragolygon y tywydd a gwneud cynlluniau.

Cynlliniwch a pharatowch picnic –crëwch fwydydd i'w bwyta.

Pa weithgareddau gallem wneud tra ar ein picnic? – rhestrwch rai.

Meddyliwch am lefydd da i fynd am bicnic.


LLYGODEN A TWRCH

Joyce Dunbar a James Mayhew

Mae Llygoden a Twrch yn penderfynu mynd am dro a chael picnic: brechdanau caws a chiwcymbyr os yw hi'n ddiwrnod braf, neu cnau cyll wedi'u rhostio a myffins wedi'u tostio o flaen y tân os yw'n wyntog a gaeafol, ond beth os yw hi'n naill dywydd na'r llall?

Cewch eich swyno gan anturiaethau Llygoden a Twrch yn y straeon annwyl ac ysgafn hyn gan Joyce Dunbar, wedi'u darlunio gan James Mayhew.

'Mae'r rhain ymhlith y cymeriadau mwyaf cofiadwy ym myd llenyddiaeth plant ... gan swyno plant a'u rhieni fel ei gilydd ...' ***Sunday Telegraph***

'Lluniau cynnes a doniol ... yn ddelfrydol i'w mwynhau gyda'ch gilydd ar brynhawn oer' ***Practical Parenting***

'Bydd plant wrth eu boddau ag anturiaethau syml y ddau ffrind annhebygol hyn' ***The School Librarian***

Llyfrau yn y gyfres:
***Llygoden a Twrch***
***Llygoden a Twrch – Dyddiau Dedwydd***
***Llygoden a Twrch a'r Parti***
***Llygoden a Twrch Go Arbennig***
***Llygoden a Twrch – Cyfrinach Hapusrwydd***
***Llygoden a Twrch – Dechrau Newydd***
***Llygoden a Twrch – Ar y Gair!***

GRAFFEG bach
www.graffeg.com
£7.99
9 781802 582130
Plant
F140422

## Clawr cefn

**Dewch i drafod...**

Beth welwch chi ar y clawr cefn?

Enwau yr awdur a'r darlunydd.

Ble mae'r broliant? – dyma ddisgrifiad byr o'r stori.

Oes rhywbeth arall ar ty cefn?

**Dewch i ddarganfod.../ i wneud**

Recordiwch froliant am y llyfr.

Cymharwch cefn y llyfr yma gyda un arall. Beth sy'n debyg neu'n wahanol.

LLYGODEN A TWRCH:

**Llygoden a Twrch**
ISBN 9781802582130

**Llygoden a Twrch Go Arbennig**
ISBN 9781802581690

**Llygoden a Twrch a'r Parti**
ISBN 9781802581706

Gall y nodiadau hyn gynnwys dolenni i wefannau trydydd parti. Nid yw Graffeg yn cymeradwyo gwefan(nau) or fath na'u cynnwys ac nid yw'n gyfrifol am gynnwys or fath ac nid yw'n cyflwyno unrhyw sylwadau na gwarantau ynghylch cynnwys, cywirdeb neu ymarferoldeb gwefan(nau) o'r fath.

*Llygoden a Twrch* Nodiadau Addysgu © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.